OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1809 (Cy.140)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion) (Gorchmynion Dileu Arbennig a Gwyro Arbennig) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Gorffennaf 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *15 Gorffennaf 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 28(2) (fel y'i cymhwysir gan adran 121(2)), 118B(9) a (10) a 119B(12) a (13) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("y Ddeddf")(**1**) a pharagraffau 1(1) a (3)(b)(iv), 3(1), (2) a (3)(b), 4(1) a 6 o Atodlen 6 iddi, sef pwerau sydd bob un yn awr yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion) (Gorchmynion Dileu Arbennig a Gwyro Arbennig) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "Awdurdod" yw'r awdurdod priffyrdd perthnasol;

ystyr "gorchymyn" yw—

(a) gorchymyn dileu arbennig(**3**);

(b) gorchymyn gwyro arbennig(**4**); neu

(c) gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu gorchymyn o fath a bennir yn (a) neu (b); ac

(**1**) 1980 p.66; mewnosodwyd adrannau 118B a 119B gan baragraffau 8 a 12 o Atodlen 6 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37); diwygiwyd adran 121(2) gan baragraff 14(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37); gwnaed diwygiadau perthnasol i Atodlen 6 i Ddeddf Priffyrdd 1980 gan baragraff 23 o Atodlen 6 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i hestynnwyd gan adran 99 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

(**3**) *Gweler* adran 118B(5) o'r Ddeddf.

(**4**) *Gweler* adran 119B(5) o'r Ddeddf.

mae cyfeiriad at ffurf neu hysbysiad a ragnodir gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys cyfeiriad at y ffurf honno neu'r hysbysiad hwnnw yn Gymraeg neu yn Saesneg (neu yn y ddwy iaith) ac at ffurf neu hysbysiad sy'n sylweddol yr un fath â'r rhai a ragnodir o ran ei heffaith neu ei effaith.

**Ffurfiau gorchymyn**

**3.**—(1) Os ymddengys i Awdurdod ei bod yn ofynnol i briffordd berthnasol sy'n croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol —

(a) gael ei chau at ddiben a bennir yn adran 118B(1)(b) o'r Ddeddf gan orchymyn dileu arbennig, rhaid i'r gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn;

(b) gael ei gwyro at ddiben a bennir yn adran 119B(1)(b) o'r Ddeddf gan orchymyn gwyro arbennig, rhaid i'r gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r map y mae'n ofynnol ei gynnwys mewn gorchymyn fod ar raddfa nad yw'n llai nag 1/2,500 neu, os nad oes map o'r fath ar gael, fod ar y raddfa fwyaf sydd ar gael.

(3) Yn achos gorchymyn dileu arbennig, rhaid i'r map y cyfeirir ato ym mharagraff (2) ddangos unrhyw lwybr amgen sy'n rhesymol gyfleus.

**Hysbysiadau**

**4.**—(1) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan baragraff 1(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Ffurf 1 yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan baragraff 4(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf mewn cysylltiad â chadarnhau gorchymyn fod ar y ffurf a geir yn Ffurf 2 yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan baragraff 4(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn gan y Cynulliad Cenedlaethol fod ar y ffurf a geir yn Ffurf 3 yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan baragraff 1(3)(b)(iv)(**5**) neu 4(1)(a)(**6**) o Atodlen 6 i'r Ddeddf gael ei gyflwyno, yn ychwanegol, i'r personau a ragnodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn.

**Gweithdrefn gorchmynion**

**5.**—(1) Rhaid bod dau gopi ar gael o orchymyn.

(2) Os cyflwynir gorchymyn i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w gadarnhau, rhaid i'r gorchymyn a'r ail gopi gael eu hanfon at y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â—

(a) dau gopi arall o'r gorchymyn;

(b) copi o'r hysbysiad a roddir o dan baragraff 1(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf;

(c) unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau sy'n ymwneud â'r gorchymyn, a wnaed yn briodol ac na chawsant eu tynnu'n ôl;

(ch) unrhyw sylwadau sydd gan yr Awdurdod ar y sylwadau neu'r gwrthwynebiadau hynny; a

(d) datganiad yn nodi ar ba seiliau, ym marn yr Awdurdod, y dylid cadarnhau'r gorchymyn.

(3) Caniateir cynnal unrhyw drafodion sy'n rhagarweiniol i gadarnhau gorchymyn dileu arbennig ar yr un pryd ag unrhyw drafodion sy'n rhagarweiniol i gadarnhau gorchymyn creu llwybr

(**5**) Amnewidiwyd paragraff 1(3)(b) gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p.69), Atodlen 16, paragraff 6.
(**6**) Amnewidiwyd paragraff 4(1)(a) gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Atodlen 16, paragraff 8.

cyhoeddus(**7**), gorchymyn gwyro llwybr cyhoeddus(**8**), gorchymyn gwyro croesfan reilffordd(**9**) neu orchymyn gwyro arbennig.

(4) Ar ôl i benderfyniad i beidio â chadarnhau gorchymyn gael ei wneud, rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y cydymffurfir â gofynion paragraff 4(3) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, roi ardystiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Ar ôl i orchymyn gael ei gadarnhau gan y Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r Awdurdod, cyn gynted ag y cydymffurfir â gofynion paragraff 4(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, roi ardystiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Ar ôl i orchymyn gael ei gadarnhau, rhaid i'r Awdurdod anfon copi o'r gorchymyn, fel y'i cadarnhawyd, at yr Arolwg Ordnans.

**Hawliadau am ddigollediad mewn cysylltiad â gorchmynion**

**6.**—(1) Rhaid i hawliad a wneir yn unol ag adran 28 o'r Ddeddf (digollediad am golled a achosir gan orchymyn creu llwybr cyhoeddus), fel y'i cymhwysir gan adran 121(2) o'r Ddeddf(**10**), a hynny o ganlyniad i weithredu gorchymyn, gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod neu, yn achos gorchymyn a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ei gyflwyno i'r Awdurdod a enwebir gan y Cynulliad Cenedlaethol, fel a ddarperir gan adran 28(3) o'r Ddeddf, a hynny drwy ei ddanfon i swyddfeydd yr Awdurdod neu'r awdurdod a enwebir gan y Cynulliad Cenedlaethol (yn ôl y digwydd), wedi'i gyfeirio at Brif Weithredwr yr awdurdod, neu drwy ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post wedi'i gyfeirio felly.

(2) Rhaid i hawliad a wneir o dan baragraff (1) gael ei gyflwyno fel ei fod yn dod i law heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl y dyddiad y daeth y gorchymyn y gwneir yr hawliad mewn cysylltiad ag ef i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**11**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

5 Gorffennaf 2005

(**7**) *Gweler* adran 26(1) o'r Ddeddf.
(**8**) *Gweler* adran 119(1) o'r Ddeddf.
(**9**) *Gweler* adran 119A(3) o'r Ddeddf.
(**10**) Diwygiwyd adran 121(2) o'r Ddeddf gan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p.42), Atodlen 2, paragraff 6 a chan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37), Atodlen 6, paragraff 14.
(**11**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Rheoliad 3(1)(a)

FFURFDEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 118BGORCHYMYN DILEU ARBENNIG AR GYFER PRIFFYRDD PENODOL SY'N CROESI TIR SY'N CAEL EI FEDDIANNU AT DDIBENION YSGOL

[ENW'R AWDURDOD]

[ENW'R GORCHYMYN]

Gwneir y Gorchymyn hwn gan [mewnosoder enw'r Awdurdod] ("yr Awdurdod") o dan adran 118B(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod, o ran y briffordd berthnasol [gweler troednodyn 1] a ddisgrifir yn erthygl 1 isod ("y briffordd"),-

(a) mai'r Awdurdod yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;

(b) bod y briffordd yn croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol; a

(c) ei bod yn hwylus at ddiben amddiffyn y disgyblion neu'r staff rhag-

(i) trais neu fygythiad o drais,

(ii) harasio,

(iii) braw neu ofid sy'n deillio o weithgaredd anghyfreithlon, neu

(iv) unrhyw risg arall i'w hiechyd neu i'w diogelwch sy'n deillio o weithgaredd o'r fath,

fod y briffordd yn cael ei chau.

Ymgynghorwyd â'r awdurdod heddlu [mewnosoder enw'r awdurdod heddlu] ar gyfer yr ardal lle y mae'r briffordd wedi'i lleoli fel sy'n ofynnol gan adran 118B(6) o Ddeddf 1980.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980 [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

Mae Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(1A) a (2)(b) o Ddeddf 1980 [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

[Ymgynghorwyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980]

[Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(b) o Ddeddf 1980] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol]

[Ymgynghorwyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(c) o Ddeddf 1980.]

GAN Y GORCHYMYN HWN:

1. Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus dros y tir a leolir yn [ym] [yng] [mewnosoder lleoliad], a ddangosir ar y map a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn â llinell drom ddi-dor ac a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael ei dileu, a hynny ar ôl [mewnosoder nifer] o ddiwrnodau ar ôl dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. [Mae'r ddarpariaeth(darpariaethau) a ganlyn yn gymwys er mwyn amddiffyn [mewnosoder enw ymgymerydd statudol], sef: [mewnosoder darpariaeth(au)]] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol - gweler troednodyn 2].

[mewnosoder y dyddiad]

Llofnodwyd [mewnosoder llofnod]

[safle o fewn yr Awdurdod]

[enw'r Awdurdod]

## YR ATODLEN

[Dylid disgrifio lleoliad, hyd a lled y briffordd fesul rhan, e.e. A-B, B-C ac yn y blaen, fel a ddangosir ar y map]

Y Troednodiadau

1. Diffinnir "relevant highway" ("priffordd berthnasol") yn adran 118B(2) o Ddeddf 1980 fel -

   (a) unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig;

   (b) unrhyw briffordd a ddangosir ar fap diffiniol ac mewn datganiad fel llwybr troed, llwybr ceffylau, neu gilffordd gyfyngedig, ac y mae gan y cyhoedd hawl dramwy drosti ar gyfer cerbydau a phob math arall o draffig; neu

   (c) unrhyw briffordd a ddangosir ar fap diffiniol ac mewn datganiad fel cilffordd sydd ar agor i bob traffig,

   ond nid yw'n cynnwys priffordd sy'n gefnffordd neu'n ffordd arbennig.

2. Gweler adran 121(5) o Ddeddf 1980.

Dylid llenwi'r bylchau fel y bo'n briodol.